**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE PRESIDING MEMBER AND MEMBERS OF THE CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR**

**SUBJECT:** **CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR - DYDD IAU, 20 GORFFENNAF 2023 DYDD IAU, 20 GORFFENNAF 2023**

**REPORT OF:**

---

PRESENT:

| | |
|---|---|
| Councillors | C. Smith (Aelod Llywyddol) |
| | C. Bainton |
| | P. Baldwin |
| | S. Behr |
| | D. Bevan |
| | K. Chaplin |
| | M. Cross |
| | H. Cunningham |
| | D. Davies |
| | G. A. Davies |
| | M. Day |
| | S. Edmunds |
| | J. Gardner |
| | J. Hill |
| | W. Hodgins |
| | J. Holt |
| | G. Humphreys |
| | R. Leadbeater |
| | E. Jones |
| | J. Morgan, J.P. |
| | J. C. Morgan |
| | J. P. Morgan |
| | L. Parsons |
| | D. Rowberry |
| | T. Smith |
| | G. Thomas |
| | J. Thomas |
| | S. Thomas |
| | J. Wilkins |

L. Winnett
D. Woods

WITH: Prif Weithredwr Interim
Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol
Cyfarwyddwr Corfforaethol Gweithredol Addysg
Prif Swyddog Adnoddau
Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion
Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethiant a Phartneriaethau
Pennaeth Datblygu Sefydliadol
Swyddog y Wasg a Chyhoeddusrwydd

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| **No. 1** | **<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u>**<br><br>Nodwyd na chafwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:<br>Cynghorydd H. Trollope, Cyfarwyddydd Corfforaethol Addysg a Chyfarwyddwr Corfforaethol Interim Gwasanaethau Cymdeithasol. | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Adroddwyd y datganiadau buddiant dilynol:<br><br>**Eitem Rhif 40: Silent Valley Waste Services Cyfyngedig**<br><br>- Cynghorwyr T. Smith a L. Winnett. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Eitem Rhif 46: Rhestr Fer Swyddogion JNC**<br>**Eitem Rhif 47: Pwyllgor Penodiadau – Swyddogion JNC**<br><br>- Cynghorydd W. Hodgins<br><br>Arhosodd yr Aelodau a enwir uchod yn y cyfarfod tra ystyriwyd yr eitemau busnes.<br><br>**Eitem Rhif 45: Recriwtio**<br><br>- Damien McCann, Prif Weithredwr Interim<br><br>Cadarnhaodd y Prif Weithredwr Interim y byddai'n gadael y cyfarfod cyn i'r eitem uchod gael ei hystyried. | |
| **No. 4** | **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**<br><br>**Cydymdeimlad**<br><br>Mynegwyd cydymdeimlad gyda theulu'r cyn Gynghorydd Bwrdeistref Sirol a Maer, Graham Bartlett, ar ei farwolaeth drist.<br><br>Dangosodd aelodau a swyddogion eu parch gyda munud o ddistawrwydd.<br><br>Nodwyd yr anfonwyd llythyr cydymdeimlad at y teulu. | |
| **No. 5** | **LLYFR PENDERFYNIADAU – CHWEFROR-GORFFENNAF 2023**<br><br>Cyflwynwyd y Llyfr Penderfyniadau ar gyfer y cyfnod Chwefror-Gorffennaf 2023 i gael ei ystyried.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i gadarnhau'r penderfyniadau. | |
| **No. 6** | **CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 7** | **CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR**<br><br>Cytunwyd. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 8** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 9** | **PWYLLGOR CRAFFU CYNLLUNIO**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 10** | **PWYLLGOR CRAFFU CYNLLUNIO**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 11** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 12** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 13** | **PWYLLGOR CRAFFU CYNLLUNIO**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 14** | **CABINET**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 15** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R CABINET**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 16** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R CABINET**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 17** | **CABINET**<br><br>Cytunwyd. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 18** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R CABINET**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 19** | **PWYLLGOR CRAFFU POBL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 20** | **PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 21** | **PWYLLGOR CRAFFU LLE**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 22** | **PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL A PHERFFORMIAD**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 23** | **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 24** | **PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 25** | **PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 26** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL A PHERFFORMIAD**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 27** | **PWYLLGOR CRAFFU POBL**<br><br>Cytunwyd. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 28** | **<u>PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 29** | **<u>CWESTIYNAU AELODAU</u>**<br><br>Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau gan Aelodau. | |
| **No. 30** | **<u>CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD</u>**<br><br>Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd. | |
| **No. 31** | **<u>BLAENRAGLEN GWAITH ARFAETHEDIG 2023/2024 Y CYNGOR</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Swyddog Democrataidd.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cytuno ar Flaenraglen Gwaith 2023/2024 y Cyngor. | |
| **No. 32** | **<u>POLISI IVF</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cynyddu amser bant ar dâl ar gyfer dau gylch o driniaeth IVF. | |
| **No. 33** | **<u>POLISI DIOGELWCH TÂN YN Y GWAITH</u>**<br><br>Ystyriodd Aelodau adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo'r Polisi Diogelwch Tân yn y Gwaith ar gyfer ei weithredu. | |
| **No. 34** | **<u>ATODLEN CYDNABYDDIAETH ARIANNOL AELODAU 2023-24</u>**<br><br>Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol er ystyriaeth.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cytuno a chyhoeddi Atodlen | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau 2023-24. | |
| **No. 35** | **<u>ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD</u>**<br><br>Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd er ystyriaeth.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo'r adroddiad ar y sail fod y Cyngor yn fodlon bod lefel ddigonol o gefnogaeth ar gyfer Aelodau Etholedig. | |
| **No. 36** | **<u>DIWEDDARIAD CYNLLUN GWEITHREDU CYNGOR AMRYWIOL</u>**<br><br>Ystyriodd Aelodau adroddiad y cyd Swyddogion.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef bod y Cyngor yn fodlon gyda'r camau gweithredu a gymerwyd hyd yma ac ni wnaed unrhyw ddiwygiadau i gamau gweithredu y dyfodol. | |
| **No. 37** | **<u>ADRODDIAD CRAFFU BLYNYDDOL 2022-23</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethiant a Phartneriaethau.<br><br>Cyfeiriodd Arweinydd y Grŵp Annibynnol at Atodiad 1 y ddogfen yn cyfeirio at werthuso craffu, yn arbennig gwblhau'r ffurflenni gwerthuso a dywedodd fod angen i'r elfen hon o'r broses gael ei datblygu ymhellach a'i gwella.<br><br>Cynigiodd Arweinydd y Cyngor y dylid gofyn i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd adolygu'r agwedd hon gyda'r nod o wella'r elfen gwerthuso craffu wrth symud ymlaen.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo'r 'gweithgaredd craffu' a gynhaliodd pob Pwyllgor Craffu yn ystod 2022/23 a chyhoeddi'r adroddiad ar wefan Blaenau Gwent. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 38** | **<u>PROTOCOL DEISEBAU 2023/27 CYNGOR BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethiant a Phartneriaethau.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo Protocol Deisebau 2023/2027 Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. | |
| **No. 39** | **<u>ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG Y GANOLFAN DDINESIG</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at baragraff 2.9 yr adroddiad yn ymwneud â seilwaith adeilad blaenorol y Ganolfan Ddinesig a theimlai y gallai peth o'r wybodaeth yn yr adroddiad fod wedi ei phortreadu yn wahanol. Dywedodd iddo wneud cais yn flaenorol i oedi cau adeilad y Ganolfan Ddinesig gan y teimlai y gallai'r adeilad fod wedi gwasanaethau diben ar gyfer y Cyngor yn y dyfodol yn cynnwys defnydd Siambr y Cyngor a oedd yn ddigon mawr i gynnwys yr holl Aelodau, swyddogion a'r cyhoedd. Daeth yr Arweinydd i ben drwy ddweud, tra'i fod yn cefnogi'r adroddiad, a gofyn i'w sylwadau gael eu nodi a'u cynnwys.<br><br>Yn dilyn trafodaeth faith lle codwyd pryderon yng nghyswllt acwsteg a phroblemau parcio o fewn ac yn y Swyddfeydd Cyffredinol, cynigiwyd ac eiliwyd:<br><br>➢ Cynnal ymchwiliadau i ddynodi safle arall i gynnal cyfarfodydd y Cyngor Llawn ar hyn o bryd (nodwyd fod angen cynnig y cyfarfodydd hyn ar sail hybrid).<br><br>➢ Cwblhau Asesiad Effaith Integredig llawn ar gyfer unrhyw safle arall a ddynodir.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a derbyn yr Asesiad Effaith Integredig ôl-weithredol a gafodd ei gwblhau yn unol â deddfwriaeth. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 40** | **<u>MABWYSIADU CYNLLUN RHEOLI ASEDAU PRIFFYRDD 2023-2028</u>**<br><br>Ystyriodd Aelodau adroddiad y Rheolwr Tîm – Golwg Strydoedd.<br><br>Cynigiwyd gohirio'r adroddiad nes y cynhelir ymchwiliadau i ddynodi cyfleoedd cyllido pellach y gellid eu defnyddio i weithredu'r cynllun gwaith.<br><br>PENDERFYNWYD yn unol â hynny. | |
| **No. 41** | **<u>TROSGLWYDDO SILENT VALLEY WASTE SERVICES YN ÔL I'R CYNGOR</u>**<br><br>Datganodd y Cynghorwyr T. Smith a L. Winnett fuddiant yn yr eitem ond aros yn y cyfarfod tra'r oedd yn cael ei hystyried.<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y cyd Swyddogion.<br><br>Gadawodd y Cynghorydd J. Wilkins y cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a nodi'r dilynol:<br>i) Y datganiad safle ar lwyddiant trosglwyddo Silent Valley Waste Services yn ôl i'r Cyngor a wnaed ar 1 Mai 2023 (yn cynnwys trosglwyddo asedau a rhwymedigaethau ar neu ar ôl dyddiad y trosglwyddo hyd at bwynt dirwyn y Cwmni i ben).<br><br>ii) O gofio'r tybiaethau a weithredir ar hyn o bryd, bod yr amcangyfrif o'r effaith uniongyrchol yn parhau i fod o fewn amlen y gyllideb a gytunwyd yn flaenorol.<br><br>iii) Yr asesiad gan Silent Valley Waste Services Cyf o fuddion ariannol i'r Cyngor ers sefydlu'r Cwmni.<br><br>Cytunwyd ymhellach bod:<br><br>➢ Gweddill darpariaeth ôl-ofal Silent Valley a'r gronfa wrth gefn elw a cholled yn cael ei defnyddio i sefydlu darpariaethau priodol/cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi o fewn y Cyngor i gefnogi ymrwymiad ariannol parhaus ôl-ofal a chynnal a chadw yn safle tomen lanw Silent Valley a rhwymedigaethau eraill. | |

| | | |
|---|---|---|
| | ➢ Swyddogion yn parhau i edrych ar y cyngor cyfreithiol ar yr opsiwn o wneud y cwmni yn segur yn hytrach na'i ddiddymu. Byddai unrhyw gynnig i wneud y cwmni yn segur yn cael ei adrodd i'r Cyngor i gael ei ystyried a'i gytuno. | |
| **No. 42** | **<u>TALIADAU PRYDAU YSGOL AM DDIM - GWYLIAU'R HAF</u>**<br><br>Ystyriodd Aelodau adroddiad y Cyfarwyddwr Gweithredol Addysg.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo'r cyllid un-tro yn gyfanswm o tua £300,000 o'r Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol i alluogi ymestyn y taliadau prydau ysgol am ddim yn ystod cyfnod gwyliau'r ysgol am y cyfnod a amlinellir ym mharagraff 2.5 yr adroddiad. | |
| **No. 43** | **<u>ADRODDIAD AELODAETH</u>**<br><br>**<u>Panel Ymgynghorol ar gyfer Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol</u>**<br><br>Cafodd yr argymhellion dilynol eu gwneud gan y Panel ar 10 Gorffennaf 2023 i benodi mewn egwyddor:<br><br>**Ysgol Gynradd Gatholig yr Holl Seintiau –** Mr Tim Baxter (yn weithredol o 1 Medi 2023)<br><br>**Cymuned Ddysgu 3-16 Ebwy Fawr** – Ms. Joanne Davies<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i gymeradwyo'r penodiadau uchod.<br><br>**<u>Gweithgor Strategaeth Tai a Digartrefedd</u>**<br><br>PENDERFYNWYD cadarnhau sefydlu'r Gweithgor uchod a chadarnhau'r penodiadau dilynol i'r Grŵp:<br><br>Aelod Cabinet – Lle ac Amgylchedd (Cadeirydd)<br>Aelod Cabinet – Lle ac Adfywio a Datblygu Economaidd<br>Cynghorydd S. Behr<br>Cynghorydd W. Hodgins | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 44** | **AMSER CYFARFODYDD CYNGOR Y DYFODOL**<br><br>Ystyriodd Aelodau amser cyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol y bydd holl gyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol yn dechrau am 10.00 a.m. | |
| **No. 45** | **EITEMAU EITHRIEDIG**<br><br>Derbyn ac ystyried yr adroddiadau dilynol sydd ym marn y swyddog priodol yn eitemau eithriedig gan roi ystyriaeth i'r prawf budd cyhoeddus ac y dylai'r wasg a'r cyhoedd gael eu heithrio o'r cyfarfod (mae'r rhesymau dros y penderfyniadau am yr eithriadau ar gael ar restr a gedwir gan y swyddog priodol).<br><br>Gadawodd y Prif Weithredwr Interim y cyfarfod ar y pwynt hwn. | |
| **No. 46** | **RECRIWTIO**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol ynghylch y prawf cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra caiff yr eitem hon o fusnes ei thrafod gan ei bod yn debygol y bydd datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 15, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad sy'n ymwneud â gwybodaeth yn cyfeirio at unrhyw ymgynghoriadau neu negodiadau, neu ymgynghoriadau neu negodiadau a ystyrir, mewn cysylltiad gydag unrhyw faterion cysylltiadau llafur yn deillio rhwng yr Awdurdod a chyflogeion neu ddeiliaid swyddi gan yr Awdurdod a bod y sefyllfa bresennol a'r trefniadau ar gyfer recriwtio Prif Weithredwr parhaol yn cael eu cadarnhau. | |
| **No. 47** | **LLUNIO RHESTR FER – SWYDDOGION JNC**<br><br>Datganodd y Cynghorydd W. Hodgins fuddiant yn yr eitem hon ond arhosodd yn cyfarfod tra'i bod yn cael ei hystyried. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Gan roi ystyriaeth i’r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol ynghylch y prawf cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na’r budd cyhoeddus mewn datgelu’r wybodaeth ac y dylai’r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio’r cyhoedd tra caiff yr eitem hon o fusnes ei thrafod gan ei bod yn debygol y bydd datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y’i diffinnir ym Mharagraff 12 a 13, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y’i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2023.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad sy’n ymwneud â materion staffio a nodi’r penderfyniadau a ystyrir ynddo. | |
| **No. 48** | **<u>PWYLLGOR PENODIADAU</u>**<br><br>Datganodd y Cynghorydd W. Hodgins fuddiant yn yr eitem hon ond arhosodd yn cyfarfod tra’i bod yn cael ei hystyried.<br><br>Gan roi ystyriaeth i’r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol ynghylch y prawf cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na’r budd cyhoeddus mewn datgelu’r wybodaeth ac y dylai’r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio’r cyhoedd tra caiff yr eitem hon o fusnes ei thrafod gan ei bod yn debygol y bydd datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y’i diffinnir ym Mharagraff 12 a 13, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y’i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2023.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad sy’n ymwneud â materion staffio a chynnig y swydd i Lee Williams ar gyflog yn unol â JNC 1 (£54,103 – £59,317 y flwyddyn). | |